

Coronafeirws a Fi

Gweithdy "Coronafeirws a fi"
i Blant a Phobl Ifanc Anabl



- Rhannu ymatebion plant a phobl ifanc anabl i'r arolwg 'Coronafeirws a fi'
- Galluogi plant a phobl ifanc i drafod a myfyrio ar eu profiadau yn ystod y cyfyngiadau symud gyda gweithwyr proffesiynol yn eu lleoliad. Mae hyn yn cynnwys meddwl am unrhyw heriau newydd mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu.
- Meddwl am beth sy'n digwydd nesa i bobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw.



Sylwch: Gall y sesiwn yma gynnwys trafodaethau a fydd yn codi profiadau ac emosiynau anodd i blant a phobl ifanc. Dechreuwch y sesiwn â rhai rheolau sylfaenol ar gyfer trafodaethau grŵp a rhannwch wybodaeth am wasanaethau lleol a chenedlaethol sy'n gallu cefnogi'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw. I gael rhagor o wybodaeth am wasanaethau cefnogi ewch i [wefan y Comisiynydd Plant](#).

Gweithgareddau wedi'u gwahaniaethu

Gwybodaeth/adnoddau ychwanegol

Cyflwyniad:

Cyflwynwch y gweithdy trwy esbonio y byddwch chi'n canolbwyntio ar ganfyddiadau arolwg gan Sally Holland.

"Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru. Gwaith Sally yw gwneud yn siŵr eich bod chi'n cael eich hawliau plant. Hawliau plant yw'r pethau rydych chi angen i dyfu i fyny'n teimlo'n hapus, yn iach ac yn ddiogel."

Esboniwch wrth y cyfranogwyr:

"Pan oedd rhaid i bawb ohonon ni aros gartre, roedd Sally eisiau gwybod sut roedd plant a phobl ifanc yn teimlo. Fe wnaeth hi weithio gyda sefydliadau eraill i ofyn cwestiynau. Cafodd y cwestiynau eu rhoi mewn arolwg. Atebodd dros 23,000 o blant a phobl ifanc yr arolwg. Roedd gan dros 1000 o'r plant a'r bobl ifanc hynny ana-bledd. Heddiw rydyn ni'n mynd i edrych ar rai o'r pethau ddysgon ni am eu profiadau."

Efallai byddwch chi eisiau gofyn a fu unrhyw blant neu bobl ifanc sydd yn y gweithdy yn cymryd rhan yn yr arolwg.

Rhannu canfyddiadau allweddol:

Gan ddefnyddio [ein fideo a/neu ein canfyddiadau allweddol gyda chefnogaeth symbolau](#), rhannwch y prif wybodaeth gyda'r cyfranogwyr.

Gallech chi estyn hyn trwy ganolbwyntio ar un o'r prif ganfyddiadau ac annog y plant a'r bobl ifanc i'w trafod mewn grwpiau bach.

Cwestiwn procio:

"Ydych chi'n synnu i wybod hyn?"

Gallech chi ddefnyddio ein poster, [sydd yma](#), i gefnogi'r cyfranogwyr i ddysgu am eu hawliau. Fel arall gallech chi ddefnyddio [ein poster hapus, iach a diogel](#).

Efallai byddwch chi am ddefnyddio iaith fwy cyfarwydd, er enghraifft efallai bydd plant a phobl ifanc yn fwy cyfarwydd â'r term "cyfnod clo". Gallech chi ddefnyddio tudalen 5,6 a 7 o'n hadroddiad hygrych i gefnogi dealltwriaeth y cyfranogwyr.

Prif Weithgaredd:

Myfyrio unigol

Dilynwch ymlaen o'r gweithgaredd trwy esbonio wrth y cyfranogwyr y byddan nhw'n awr yn cael cyfle i feddwl am sut brofiad oedd y cyfnod gartre iddyn nhw.

Gofynnwch i'r cyfranogwyr feddwl am ddau beth roedden nhw'n hoffi am fod gartre ac un peth doedden nhw ddim yn hoffi.

Gallai'r cyfranogwyr:

- ysgrifennu am eu hamser gartre
- tynnu lluniau i gynrychioli eu syniadau
- dewis o wahanol luniau gafodd eu dethol ymlaen llaw
- trafod eu syniadau gyda phlentyn neu berson ifanc arall neu gydag aelod o staff
- gweithio fel grŵp mawr i greu darn o waith celf ar sail eu hamser gartre

Gallai fod angen sawl sesiwn i gwblhau'r gweithgaredd yma. Efallai byddwch chi am ddefnyddio ein templedi:

[Coronafeirws a Fi - Taflen Waith](#)

[Coronafeirws a Fi - Mat Siarad](#)

Myfyrio:

Dewch â'r cyfranogwyr yn ôl at ei gilydd i drafod eu syniadau. Cefnogwch y cyfranogwyr wrth iddyn nhw rannu eu hatebion.

Gweithiwch fel grŵp i edrych ar y rhestr o bethau doedd y cyfranogwyr ddim wedi mwynhau. Efallai byddwch chi eisiau tynnu sylw at bethau mae eich lleoliad chi wedi gwneud i ddatrys y pethau yna ar gyfer plant a phobl ifanc.

Gofynnwch i'r cyfranogwyr beth allai gael ei newid i wneud y rhestr yn well?

Penderfynwch fel grŵp oes yna unrhyw gamau byddech chi'n hoffi eu cymryd.

Efallai bydd plant a phobl ifanc am fynd â'r materion hyn at eu cyngor ysgol neu at aelodau eraill o'r gymuned. Gallwch chi ddefnyddio ein hadnodd "[Gwneud Gwahaniaeth](#)" i gefnogi hyn.